Hydref 2024

# Prosiect Maen Hir

## Cwestiynau Cyffredin

## Cynnwys


**Gwybodaeth am Maen Hir**

1. Beth yw Prosiect Maen Hir?
2. Pam mae'r prosiect yn cael ei alw'n Maen Hir?
3. Beth yw amserlen y prosiect?
4. Beth yw coridor y llwybr ceblau?
5. Beth rydym yn bwriadu ei wneud gyda'r Hen Ddepo Olew?
6. Pa fesurau lliniaru rydyn ni'n eu cynnig ar gyfer y dirwedd a golygfeydd?
7. Beth sy'n digwydd i'r tir pan fydd y fferm solar yn cael ei datgomisiynu?
8. A fydd y paneli'n cael eu hailgylchu pan fydd y fferm solar yn cael ei gwaredu?

**Gweithio gyda'r gymuned**

9. Sut bydd Maen Hir yn gweithio gyda'r gymuned leol?
10. Sut bydd y prosiect o fudd i'r gymuned leol?
11. A fydd y prosiect yn creu swyddi a manteision economaidd?
12. A fydd y prosiect yn gwella hamdden ac amwynder?
13. Beth yw Prosiect Solar Cymunedol 5MWp?
14. Sut y byddwn yn gweithio gyda ffermwyr lleol?

**Amgylcheddol**

15. Beth yw'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR)?
16. Sut bydd y prosiect o fudd i ecoleg a bioamrywiaeth?

**Ymgynghori**

17. Beth yw ein Hymgynghoriad Statudol?
18. Sut ydych chi'n rhoi adborth?
19. Ar beth rydyn ni'n gofyn am adborth?
20. Ble gallaf ddod o hyd i gopïau papur o ddeunyddiau ymgynghori?
21. Beth fydd yn digwydd nesaf?
22. Sut mae cael y wybodaeth ddiweddaraf?

**Astudiaeth o'r Boblogaeth yn Gyffredinol**

1. Beth yw Prosiect Maen Hir?

Mae Prosiect Maen Hir yn gynllun storio solar ac ynni arfaethedig a gyflwynwyd gan Lightsource bp ar Ynys Môn. Bydd y prosiect yn cyflenwi 360 megawat (MW) o drydan adnewyddadwy i'r Grid Cenedlaethol. Mae hyn yn golygu y gallai gynhyrchu digon o ynni i bweru dros 140,000 o gartrefi (cyfwerth) ac osgoi dros 70,000 tunnell o $CO_2$ bob blwyddyn.

Mae Prosiect Maen Hir wedi'i leoli yng ngogledd yr Ynys ac mae'n cynnwys tua 1,284 hectar (ha) o dir sydd â'r potensial i ddarparu ar gyfer datblygiad solar PV a seilwaith cysylltiedig gan gynnwys is-orsaf y prosiect a'r System Storio Ynni Batri (BESS). Diffinnir y safle fel un sy'n cynnwys tri pharsel cysylltiedig er mwyn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd. Mae'r parseli'n ardal ger Rhosgoch a Bodewryd (a nodir fel 'Gogledd Maen Hir'), i'r gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain o Lannerch-y-medd ('De Maen Hir A' a 'De Maen Hir B'), ac o amgylch ymylon gogleddol a dwyreiniol Llyn Alaw ('Canol Maen Hir'). Mae'r tir yn cynnwys caeau amaethyddol, gydag ardal o dir llwyd yng Ngogledd Maen Hir ger Rhosgoch a oedd gynt yn ddepo olew.

Mae'r cynigion yn cynnwys seilwaith ar gyfer cynhyrchu a storio ynni adnewyddadwy, cyflenwi'r ynni hwn i'r Grid Cenedlaethol, a'r mynedfeydd a'r compowndiau dros dro sydd eu hangen ar gyfer adeiladu. Mae'r Prosiect yn cynnwys Prosiect Solar Cymunedol 5MWp, MWp yw'r capasiti mwyaf (brig) o gapasiti solar MW DC wedi'i osod. Byddai'r incwm a fyddai'n deillio o hyn yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau sydd o fudd uniongyrchol i gymunedau lleol a'r amgylchedd, a allai gynnwys ychwanegu at seilwaith presennol a chreu mannau hamdden newydd.

2. Pam mae'r prosiect yn cael ei alw'n Maen Hir?

Dewiswyd yr enw Prosiect Maen Hir i adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg a'i diwylliant ar Ynys Môn. Mae Maen Hir, neu 'Meini Hirion,' yn cyfeirio at feini hirion Ynys Môn sy'n un o nodweddion mwyaf nodweddiadol ac unigryw'r ynys. Mae Prosiect Maen Hir yn arwydd o orffennol ac ymrwymiad Ynys Môn i lunio ei dyfodol yn unol ag arferion cynaliadwy. Mae'n tanlinellu'r angen dybryd i ymateb ar frys i gyflawni allyriadau Sero Net wrth weithio mewn cytgord â'r amgylchedd lleol sydd eisoes yn bodoli – cam hollbwysig tuag at gynaliadwyedd a chyfrifoldeb amgylcheddol.

3. Beth yw amserlen y prosiect?

Rydym yn cynnal Ymgynghoriad Statudol ar hyn o bryd, sy’n para chwe wythnos rhwng 02 Hydref a 15 Tachwedd 2024. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn galluogi’r gymuned leol, cynghorau a sefydliadau i roi eu hadborth yn ffurfiol ar y cynigion, a fydd yn helpu i hysbysu’r dyluniad. Mae rhagor o wybodaeth am ein Hymgynghori Statudol ar gael yn adran ‘Ymgynghori’ y ddogfen hon.

Byddwn yn dadansoddi’r holl adborth a ddaw i law a bydd y sylwadau’n cael eu hystyried wrth ddatblygu’r dyluniad. Rydym yn bwriadu cyflwyno cais am Ganiatâd Datblygu i’r Arolygiaeth Gynllunio yn 2025.

4. Beth yw coridor y llwybr ceblau?

Mae’r llwybr hwn yn cysylltu’r ceblau o dan y ddaear 33kV a/neu 132kV rhwng yr is-orsafoedd 33kV a 132kV, y Storfa Ynni, ac is-orsaf y Prosiect.

5. Beth rydym yn bwriadu ei wneud gyda’r Hen Ddepo Olew?

Mae ein cynnig yn cynnwys defnyddio tir llwyd, a arferai fod yn ddepo olew ger Rhosgoch. Dyma’r lleoliad sy’n cael ei ffafrio ar gyfer cyfleusterau Storio Ynni, a’r lleoliad sy’n cael ei ffafrio ar gyfer y Prosiect Solar Cymunedol 5MWp.  Wrth ddefnyddio’r tir hwn, byddai’r prosiect yn creu gwelliannau seilwaith, a allai helpu i ddatgloi ei botensial ar gyfer cyfleoedd busnes a hamdden.

6. Pa fesurau lliniaru rydyn ni’n eu cynnig ar gyfer y dirwedd a golygfeydd?

Mae’r asesiad amgylcheddol cynhwysfawr ar gyfer y Prosiect hefyd yn cynnwys Asesiad llawn o’r Dirwedd a’r Effaith Weledol. Mae hyn yn rhan o’r PEIR a bydd yn cael ei esblygu ar gyfer y Datganiad Amgylcheddol (ES).

Mae ein dyluniad yn ystyried cartrefi, yn ogystal â derbynyddion sensitif eraill o fewn ac wrth ymyl y safle. Bydd hyn yn cynnwys mesurau lliniaru creiddiol, fel gwrthbwyso a phlannu / sgrinio newydd, lle bo hynny’n briodol, er mwyn osgoi neu leihau unrhyw effeithiau gweledol.

Lle bo angen, yn berthnasol i ba mor agos ydynt at y prosiect, rydym hefyd yn cynnal Asesiad o Amwynderau Gweledol Preswyl (RVAA) sy’n ceisio lliniaru effeithiau posibl ar olygfeydd ac amwynder preifat. Pan fo’n ymarferol, byddwn yn cynnig mesurau pwrpasol i leihau effeithiau posibl y datblygiad yn weledol ar gyfer pob un eiddo y gallai hyn effeithio arnynt.

Mae'r Paramedrau sy'n sail i asesiad y PEIR yn nodi uchder mwyaf Araeau PV ar 3.5m, ac yn cyfyngu ar elfennau eraill o'r seilwaith arfaethedig.

7. Beth sy'n digwydd i'r tir pan fydd y fferm solar yn cael ei datgomisiynu?

Fel rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO), mae'n rhaid i ni gyflwyno cynllun amlinellol ar gyfer sut rydyn ni'n bwriadu rheoli'r gwaith o ddatgomisiynu'r prosiect er mwyn sicrhau bod unrhyw effeithiau posibl yn cael eu lliniaru cyn belled ag y bo modd. Bydd hyn yn cynnwys manylion am sut rydym yn bwriadu adfer y tir yn ôl i'w ddefnydd gwreiddiol.

8. A fydd y paneli'n cael eu hailgylchu pan fydd y fferm solar yn cael ei gwaredu?

Rydym wedi ymrwymo i reoli ein ffermydd solar gyda buddiannau pennaf y gymuned a'r tir mewn golwg. Mae hyn yn cynnwys rheoli paneli solar ffotofoltaidd (PV) yn gyfrifol ar ddiwedd eu hoes. Ar hyn o bryd, mae tua 95% o gyfanswm y paneli solar yn ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu.

Mae paneli PV fel arfer yn cynnwys gwydr, alwminiwm, copr, arian a deunyddiau lled-ddargludo y gellir eu hadfer a'u hailddefnyddio'n llwyddiannus. Yn ôl pwysau, mae mwy nag 80 y cant o banel PV nodweddiadol yn wydr ac alwminiwm – deunyddiau cyffredin a hawdd eu hailgylchu. Ar hyn o bryd mae Lightsource bp yn edrych ar gyfleoedd i ailgylchu paneli sydd wedi'u difrodi neu nad ydynt yn gweithio yn ystod y camau adeiladu a gweithredu, yn ogystal â phaneli sydd wedi'u datgomisiynu ar gyfer Prosiect Maen Hir.

**Gweithio gyda'r gymuned**

9. Sut bydd Maen Hir yn gweithio gyda'r gymuned leol?

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau lleol. Ers dechrau'r prosiect, rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, a chymunedau lleol mewn ffordd agored a thryloyw i gyfleu eu safbwyntiau. Mae'r adborth a gafwyd yn ein hymgynghoriad anstatudol cynharach, ynghyd â'r arolygon amgylcheddol a thechnegol parhaus, wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o lunio ein cynnig.

Rydyn ni eisiau clywed eich barn am y Prosiect. Mae adborth gan y gymuned yn hanfodol i'n helpu i siapio'r Prosiect a sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol. Rydym yn croesawu eich adborth ar wahanol elfennau o'r Prosiect, fel cynllun y safle, ystyriaethau amgylcheddol a manteision cymunedol. Bydd eich sylwadau a'ch awgrymiadau yn ein helpu i

fireinio ein Prosiect, mynd i'r afael ag unrhyw bryderon, a manteisio i'r eithaf ar fuddion y Prosiect i'r ardal leol. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r gymuned drwy gydol y broses ddatblygu ac rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn wrth greu Prosiect llwyddiannus a chynaliadwy.

10. Sut bydd y prosiect o fudd i'r gymuned leol?

Gallai'r Prosiect ddarparu amrywiaeth o fanteision sylweddol i'r gymuned leol, i'r amgylchedd, ac i'r economi. Bydd y prosiect yn:

- Gwella bioamrywiaeth leol, creu cynefinoedd bywyd gwyllt newydd, a chynnal defnydd amaethyddol, fel pori da byw a phlannu blodau gwyllt, gan gyfoethogi'r amgylchedd lleol.
- Darparu prosiect solar cymunedol 5MWp pwrpasol, sy'n darparu cyllid ar gyfer mentrau lleol a'r amgylchedd.

- Creu cyfleoedd gwaith yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gan roi hwb i gyflogaeth leol a chyfrannu at dwf economaidd.
- Byddwn yn ymgysylltu â Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor i archwilio cyfleoedd addysgol i breswylwyr a myfyrwyr, gan hyrwyddo datblygu sgiliau yn y sector ynni adnewyddadwy.

11. A fydd y prosiect yn creu swyddi a manteision economaidd?

Bydd y Prosiect yn creu cyfleoedd arwyddocaol i greu swyddi lleol a manteision economaidd. Disgwylir i'r Prosiect greu tua 1,320 o gyfleoedd gwaith yn ystod y cam adeiladu, gyda gweithlu brig o tua 650. Bydd y swyddi hyn yn amrywio o swyddi arbenigol a medrus iawn i rai sydd angen sgiliau mwy cyffredinol, gan ddarparu sbectrwm eang o gyfleoedd cyflogaeth.

Yn ogystal â chyflogaeth uniongyrchol, bydd y Prosiect yn creu cyfleoedd gwaith anuniongyrchol ac wedi'u hysgogi, a fydd arwyddocaol, drwy ei gadwyn gyflenwi a gwariant lleol gweithwyr. Amcangyfrifir y bydd tua 1,110 o swyddi'n cael eu cefnogi yn yr economi leol drwy gaffael deunyddiau a gwasanaethau, yn ogystal â gwariant gweithwyr adeiladu ar lety, bwyd a gwasanaethau lleol eraill.

Bydd cam gweithredu'r prosiect yn cefnogi rhwng 10-12 swydd amser llawn, gan gynnwys rolau mewn peirianneg drydanol, rheoli perfformiad, cynnal a chadw a thirlunio. Bydd y Prosiect yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth gweithredol, sy'n gyson â chriwiau gweithredu a chynnal a chadw,

tirlunio, a thimau trwsio achlysurol. Gallai'r swyddi a gefnogir hefyd gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau ar gyfer trigolion lleol, yn y sector ynni gwyrdd a charbon isel.

Yn economaidd, disgwylir i'r Prosiect gynhyrchu gweithgarwch economaidd lleol sylweddol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Strategaeth Cyflogaeth, Sgiliau a'r Gadwyn Gyflenwi Ragarweiniol (PESS), sy'n rhan o'r deunyddiau ymgynghori.

Ar ben hynny, bydd y Prosiect yn helpu ffermydd drwy ddarparu ffrwd incwm ychwanegol sy'n eu galluogi i barhau ac o bosibl ehangu eu gweithgareddau ffermio fel pori defaid, a thrwy hynny sicrhau parhad gweithgarwch amaethyddol ar Ynys Môn.

Mae ymrwymiad y Prosiect i gynlluniau datblygu sgiliau a chyflogaeth lleol, gan gynnwys partneriaethau â sefydliadau addysgol lleol ac arferion recriwtio wedi'u targedu, yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar fuddion y Prosiect i'r gymuned leol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau Ragarweiniol sydd ar ein gwefan.

12. A fydd y prosiect yn gwella hamdden ac amwynder?

Mae'r Prosiect yn ceisio gwella adnoddau hamdden ac amwynder ar gyfer y gymuned leol ac ymwelwyr. Mae'r Prosiect yn gyfle i greu llwybrau caniataol a llwybrau beicio newydd, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored a hybu ffyrdd iach o fyw.

Ar ben hynny, bydd y Prosiect yn edrych ar gyfleoedd i wella hawliau tramwy cyhoeddus presennol, gan eu gwneud yn fwy hygyrch a phleserus i bob defnyddiwr. Gallai hyn gynnwys adfer nodweddion tirwedd traddodiadol, fel cloddiau a fydd yn atgyfnerthu cymeriad a diwylliant yr ardal ac yn cefnogi bioamrywiaeth leol.

Drwy welliannau hamdden ac amwynder, gallai'r Prosiect greu manteision parhaol i'r gymuned leol, gan wella ansawdd bywyd a hyrwyddo llesiant trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Rydym yn eich annog i fynegi eich barn yn ystod y broses ymgynghori wrth i ni gasglu eich adborth.

13. Beth yw Prosiect Solar Cymunedol 5MWp?

Ar hyn o bryd mae tîm y prosiect yn ystyried y ffordd orau o ddarparu'r fferm solar gymunedol 5MW fel rhan o'r prosiect. Byddai'r cynllun yn gynllun solar cymunedol o'r radd flaenaf yng Nghymru.

Rydym wedi cyhoeddi [Adroddiad ar y Buddion ar y Cyd]. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut rydyn ni'n bwriadu darparu'r fferm solar Gymunedol 5MW ac mae'n cynnwys amcangyfrif o refeniw'r cynllun.

Bydd yr incwm a gynhyrchir gan y fferm solar gymunedol yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau a mentrau sydd o fudd uniongyrchol i'r cymunedau lleol a'r amgylchedd sy'n agos at y Prosiect.

Bwriedir i'r gronfa fod ar gael ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau a mentrau lleol gan gynnwys, er enghraifft:

- Prosiectau i wella amwynderau cyhoeddus, e.e. cyfleusterau chwaraeon a hamdden, neuaddau cymunedol,
- Prosiectau amgylcheddol a bywyd gwyllt, gan gynnwys gwella seilwaith gwyrdd,
- Gweithgareddau i gynnwys y gymuned leol mewn gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol,
- Gweithgareddau i gefnogi plant a phobl ifanc,
- Prosiectau datgarboneiddio a chynaliadwyedd, a
- Hyfforddiant sgiliau a swyddi

Rydym yn cynnig y byddai'r cynllun solar cymunedol 5MW yn cael ei reoli gan Menter Môn, gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn darparu rôl lywodraethu. Rydyn ni'n gweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Menter Môn i sicrhau y bydd y gronfa'n hygyrch, a bydd y manteision yn cael eu gwireddu drwy gydol oes weithredol y Prosiect.

14. Sut y byddwn yn gweithio gyda ffermwyr lleol?

Mae Lightsource bp yn gweithio ochr yn ochr â ffermwyr i gefnogi parhad gweithgarwch amaethyddol ar eu tir, os ydynt yn dewis gwneud hynny. Os nad yw perchennog tir yn dymuno ffermio ei dir, efallai y bydd opsiynau i sicrhau bod y tir ar gael i denant ffermio.
Ar ben hynny, bydd y Prosiect yn helpu ffermwyr drwy ddarparu ffrwd incwm ychwanegol sy'n eu galluogi i barhau ac o bosibl ehangu eu gweithgareddau ffermio fel pori defaid.

**Amgylcheddol**

15. Beth yw'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR)?

Mae hyn yn nodi canfyddiadau cychwynnol yr arolygon amgylcheddol ac yn nodi'r mesurau rydyn ni'n eu cynnig i leihau a gwella'r effeithiau y gallai ein datblygiad arfaethedig eu cael ar yr amgylchedd.  Rydym hefyd wedi cynhyrchu crynodeb annhechnegol byrrach (NTS) sy'n crynhoi'r PEIR. Mae'r PEIR ar gael yn yr adran Dogfennau ar ein gwefan.

[Cliciwch yma] i weld yr Crynodeb Annhechnegol.

16. Sut bydd y prosiect o fudd i ecoleg a bioamrywiaeth?

Rydym yn cynnal asesiadau ecoleg, bioamrywiaeth a bywyd gwyllt fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r amgylchedd lleol a'r effeithiau posibl y gallai ein cynigion ar gyfer Prosiect Maen Hir eu creu.

Bydd mesurau'n cael eu cynnwys yn nyluniad y Prosiect i liniaru effeithiau ar rywogaethau gwarchodedig a/neu nodedig.

Ar ben hynny, mae ein cynigion yn cynnwys cyfleoedd i wella bioamrywiaeth leol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ym Mhennod 7 y PEIR.

**Ymgynghori**

17. Beth yw ein Hymgynghoriad Statudol?

Un o brif elfennau'r broses cyn ymgeisio am DCO yw rhoi cyfle i gymunedau lleol, cynghorau cymuned, tirfeddianwyr, meddianwyr, ymgyngoreion statudol, a phartïon eraill sydd â diddordeb ddeall a dylanwadu ar y Prosiect. Mae hyn yn rhan o'r ymgynghoriad statudol, a fydd yn para am ychydig dros chwe wythnos rhwng **02 Hydref a 15 Tachwedd 2024**.

Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol, rydym yn cynnal wyth digwyddiad gwybodaeth wyneb yn wyneb a dwy weminar gymunedol ar-lein i roi'r cyfle i chi siarad yn uniongyrchol ag aelodau o dîm y Prosiect, yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Mae manylion y digwyddiadau gwybodaeth a'r gweminarau ar gael isod:

| **Dyddiad** | **Amser Agor** | **Lleoliad** | **Lleoliad** |
|---|---|---|---|
| Dydd Mercher 09 Hydref 2024 | 13.30-19.30 | Llangefni | Neuadd y Dref Llangefni'<br>Sgwâr Bulkeley<br>Llangefni<br>LL77 7LR |
| Dydd Gwener 11 Hydref 2024 | 13.30-19.30 | Talwrn | Neuadd Bentref Talwrn<br>Talwrn<br>LL77 7SU |
| Dydd Iau 17 Hydref 2024 | 13.30-19.30 | Llanddeusant | Neuadd Bentref Llanddeusant, Llanddeusant, Caergybi, LL65 4AA |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Gwener 18 Hydref 2024 | 13.30-19.30 | Amlwch | Neuadd Goffa Amlwch<br>18 Stryd y Farchnad,<br>Amlwch,<br>LL68 9ET |
| Dydd Sadwrn 19 Hydref 2024 | 10.00-14.00 | Cemaes | Neuadd Bentref David Hughes,<br>Stryd Fawr,<br>Cemaes<br>LL67 0HL |
| Dydd Mawrth 22 Hydref 2024 | 18.00-19.00 | Ar-lein (Cymraeg) | Zoom – cliciwch yma i gofrestru i fynychu. |
| Dydd Sadwrn 26 Hydref 2024 | 10.00-14.00 | Llannerch-y-medd | Y Ganolfan,<br>Ysgol Gymunedol Llannerch-y-medd,<br>Llannerch-y-medd,<br>LL71 8DP |
| Dydd Llun 28 Hydref 2024 | 13.30-19.30 | Llanfechell | Canolfan Gymunedol Ysgol Llanfechell, Ffordd y Mynydd, Llanfechell, LL68 0SA |
| Dydd Mawrth 29 Hydref 2024 | 13.30-19.30 | Rhosybol | Canolfan Gymunedol Ysgol Rhosybol,<br>Rhosybol,<br>Amlwch,<br>LL68 9PP |
| Dydd Mercher 30 Hydref 2024 | 18.00-19.00 | Ar-lein (Saesneg) | Zoom – cliciwch yma i gofrestru i fynychu. |

18. Sut ydych chi'n rhoi adborth?

Rydym yn croesawu eich adborth ar ein Prosiect. Gallwch gyflwyno eich sylwadau yn y ffyrdd canlynol:

- Cyflwyno ffurflen adborth ar-lein drwy wefan y Prosiect: dolen yma
- Llenwi copi papur o'r ffurflen adborth, y gellir ei chyflwyno mewn digwyddiad gwybodaeth wyneb yn wyneb neu ei dychwelyd i gyfeiriad rhadbost y Prosiect
- Anfon e-bost at: maenhir@lightsourcebp.com

- Darparu sylwadau yn ysgrifenedig a'u postio am ddim, i FREEPOST MAEN HIR PROJECT

Rhaid cyflwyno adborth i'r ymgynghoriad yn ysgrifenedig neu ar-lein erbyn **23.59 ddydd Gwener 15 Tachwedd 2024**. **Efallai na fydd adborth a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei ystyried.**

19. Ar beth rydyn ni'n gofyn am adborth?

Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, byddwn yn croesawu ac yn ystyried adborth ar bob agwedd ar y Prosiect. Rydym yn gwahodd sylwadau ar y canlynol:

- Yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR), sy'n rhoi manylion canlyniadau ein hasesiadau amgylcheddol rhagarweiniol a'r mesurau lliniaru a gwella cysylltiedig.

- Nodweddion gweithredol tymor hwy arfaethedig, fel sut gallai'r Prosiect edrych a chael ei brofi gan gymdogion cyfagos.

- Nodweddion dros dro tymor byrrach arfaethedig, fel cynlluniau adeiladu.

- Manteision cymunedol posibl sy'n gysylltiedig â'r Prosiect, fel y cyfle i gael Prosiect Solar Cymunedol 5MWp.

20. Ble gallaf ddod o hyd i gopïau papur o ddeunyddiau ymgynghori?

Yn ogystal ag yn ein gwefan ac yn ein digwyddiadau gwybodaeth, gallwch weld copïau o'r deunyddiau ymgynghori yn y lleoliadau canlynol:

| **Lleoliad a chyfeiriad** | **Amser Agor** | **Ffôn / E-bost** |
|---|---|---|
| **Canolfan Fusnes Ynys Môn**<br>Cyngor Sir Ynys Môn Parc Busnes Bryn Cefni Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7XA | 09.30 – 16.30<br>Dydd Llun i ddydd Gwener | Ffôn: (01248) 750 057<br>E:pmo@ynysmon.llyw.cymru |
| **Llyfrgell Amlwch**<br>Lôn Parys<br>Amlwch | Mawrth 09.30-12.30<br>14.00-17.00<br>Mercher 09.30-12.30 | Ffôn: (01407) 830145<br>E:kbxlh@anglesey.gov.wales |

| | | |
|---|---|---|
| Ynys Môn<br>LL68 9EA | Iau 14.00-19.00<br>Gwener 09.30-12.30<br>Sadwrn 09.30-12.30 | |
| **Llyfrgell Benllech**<br>Ffordd Bangor<br>Benllech Tyn-y-gongl<br>LL74 8TF | Llun 14.00-17.00<br>Mawrth 13.00-17.00<br>Mercher 10.00-13.00<br>14.00-17.00<br>Gwener 14.00-18.00<br>Sadwrn 10.00-13.00 | Ffôn: (01248) 852348<br>E:dcxlh@anglesey.gov.wales |
| **Llyfrgell Caergybi**<br>Neuadd y Farchnad<br>Stryd Stanley<br>Caergybi<br>LL65 1HH | Llun 09.30-18.00<br>Mawrth 09.30-18.00<br>Mercher 09.30-13.00<br>Iau 09.30-18.00<br>Gwener 09.30-18.00<br>Sadwrn 09.30-12.30 | Ffôn: (01407) 762917<br>E:kpxlh@ynysmon.llyw.cymru |
| **Llyfrgell Llangefni**<br>Lôn y Felin<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL777RT | Llun 09.00-19.00<br>Mawrth 09.00-17.00<br>Mercher 09.00-13.00<br>Iau 09.00-18.00<br>Gwener 09.00-19.00<br>Sadwrn 09.30-12.30 | Ffôn: (01248) 752095 |

21. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn adolygu ein cynigion manwl yng ngoleuni'r adborth a gafwyd o'r ail ymgynghoriad hwn, ynghyd â chanlyniadau asesiadau parhaus, i gwblhau a chyflwyno ein cais am gydsyniad datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Fel yr ymgeisydd, mae gennym ddyletswydd i ddangos sut rydym wedi ystyried eich barn wrth ddatblygu ein cynigion terfynol ar gyfer Prosiect Maen Hir. Bydd y cais a gyflwynir gennym i'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynnwys Adroddiad Ymgynghori sy'n crynhoi'r holl faterion a godwyd yn yr adborth i'r ymgynghoriad ynghyd ag esboniad o sut rydym wedi ystyried safbwyntiau er mwyn datblygu ein cynigion terfynol.

Bydd yr Adroddiad hwn, ynghyd â holl ddogfennau eraill y cais, yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio os bydd ein cais yn cael ei dderbyn i'w archwilio.

22. Sut mae cael y wybodaeth ddiweddaraf?

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am Brosiect Maen Hir, gallwch gofrestru yma i dderbyn diweddariadau am y prosiect yn uniongyrchol i'ch blwch derbyn: www.lightsourcebp.com/uk/projects/maen-hir-solar-battery/ (http://www.lightsourcebp.com/uk/projects/maen-hir-solar-battery/)

Mae hygyrchedd yn bwysig i ni. Cysylltwch â ni drwy unrhyw un o'r llinellau cyfathrebu a nodir isod os oes angen neu os yw'n well gennych ddulliau cyfathrebu eraill.

- E-bost: maenhir@lightsourcebp.com
- Ffoniwch ein llinellau gwybodaeth rhadffôn: Cymraeg: 08081 756663 / Saesneg: 08081 756375
- Ysgrifennwch at: FREEPOST MAEN HIR PROJECT  (nid oes angen stamp).